



Gofal Cymdeithasol **Cymru** Social Care **Wales**

Ein cynnig Cymraeg

Dyma adnoddau i gefnogi gweithwyr, cyflogwyr a myfyrwyr gofal cymdeithasol neu blynnyddoedd cynnar a gofal plant, ar eu taith iaith.

Darganfyddwch pam ei bod hi'n bwysig defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a beth rydyn ni'n ei wneud i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r adnoddau yma i'ch helpu chi ddysgu mwy am y Gymraeg, diwylliant Cymru a gweithio'n ddwyieithog.



Am fwy o wybodaeth am
Gofal Cymdeithasol Cymru, ewch i'n gwefan:
gofalcymdeithasol.cymru

Modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Eisiau dysgu mwy am y Gymraeg, diwylliant Cymru a gweithio'n ddwyieithog?

Mae ein modiwl e-ddysgu yn cynnwys gwybodaeth am:

- y Gymraeg a dwyieithrwydd
- yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud a pham
- ymarferoldeb gweithio'n ddwyieithog
- beth mae'n ei olygu i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

Bydd y modiwl yn cymryd tua 30 munud i'w gwblhau ac mae'n cyfri tuag at eich datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Dechrau'r modiwl



Adnodd hyfforddi i gefnogi gweithio'n ddwyieithog

Mae ein adnodd 'hyfforddi'r hyfforddwr' yn cefnogi hybu ymwybyddiaeth iaith i bobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant, a myfyrwyr addysg bellach neu addysg uwch.

Mae'r adnodd yn:

- cyflwyno gwybodaeth am y Gymraeg a dwyieithrwydd
- astudio deddfwriaeth a pholisi cyhoeddus berthnasol
- trafod yr elfennau ymarferol sy'n ymwneud â gweithio'n ddwyieithog.

Gweld yr adnodd



Gwiriwr lefel iaith

Rydyn ni wedi cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu 'gwiriwr lefel' ar gyfer y sector gofal cymdeithasol.

Mae'r gwiriwr lefel iaith yn asesiad ar-lein i'ch helpu i ddarganfod lefel eich Cymraeg o ran sgiliau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu.

Gwirio eich lefel iaith



Asesu a chofnodi sgiliau iaith eich staff

Mae'r adnodd yma yn ffordd syml o asesu sgiliau iaith yn seiliedig ar y mathau o dasgau cyfathrebu (darllen, ysgrifennu, siarad â dealltwriaeth) y mae eich staff yn gallu eu gwneud drwy'r Gymraeg.

Mae'r Fframwaith Sgiliau Iaith yn eich galluogi i fod yn glir am yr union lefelau sgiliau y mae angen i chi gyfeirio atynt wrth asesu, recriwtio a chynllunio'r defnydd o sgiliau cyfathrebu eich staff.

Gallwch asesu a chofnodi sgiliau iaith eich staff yma



Cwrs Croeso

Mae strategaeth Mwy na geiriau Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i bob gweithiwr yn y sector iechyd a gofal fod â lefel cwртеisi o Gymraeg erbyn 2027.

Mae'r cwrs byr yma i weithwyr yn y sector iechyd a gofal ac yn cynnwys geiriau a chyfarchion syml i bobl sy'n newydd i'r Gymraeg. Bydd y cwrs yn datblygu eich hyder i siarad Cymraeg, ac yn eich annog i ddysgu mwy.

Mwy o wybodaeth yma



Cwrs Cymraeg Gwaith

Mae'r cwrs yma ar-lein ac wedi'i deilwra ar gyfer y sector gofal gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r cwrs yn un byr ac yn cymryd tua 10 awr i'w gwblhau.

O ddysgu rhifau i gyfarchion posib, mae'r cwrs yn eich helpu chi i gyfathrebu gyda'r bobl rydych chi'n cefnogi.

Ewch amdani



Cyrsiau Camau a chymorth cyfoedion

Beth am roi cynnig ar gwrs dysgu Cymraeg Camau?

Mae'r cwrs wedi'i ddylunio yn arbennig i weithwyr gofal ac mae'n canolbwyntio ar eiriau sydd eu hangen fwyaf wrth gyfathrebu gyda'r bobl rydych chi'n cefnogi.

Mae'r cyrsiau Camau:

- i ddechreuwr
- ar-lein
- yn hyblyg
- yn cyfrif tuag at DPP.

Mae dau gwrs:

- Mynediad, sy'n addas i ddechreuwr
- Sylfaen, sy'n adeiladu ar y modiwl lefel Mynediad.

Mae modd hefyd ymuno â'n cymuned ar-lein, cymorth cyfoedion. Dyma ofod i ddysgwyr ymgysylltu â'i gilydd a rhannu eu profiadau am y Gymraeg. Gallwch drafod sut rydych chi'n mwynhau'r cwrs a chefnogi eich gilydd tra'n rhannu yr hyn yr ydych wedi ei ddysgu i fagu hyder.

Ewch amdani ar y daith iaith Gymraeg



Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Cofiwch bod gennym ni wybodaeth ac adnoddau i'ch cefnogi i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

Cewch hyd i wybodaeth i gyflogwyr, i weithwyr, adnoddau a mwy yma

